# Gweledigaeth gyffredin ar gyfer ein heconomi

## Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol ar gyfer Canolbarth Cymru a De-orllewin Cymru



# Gweithgareddau i grwpiau

Trwy gydweithio, mae Llywodraeth Cymru ac partneriaid rhanbarthol y Canolbarth a De-ddwyrain Cymru yn gwahodd pobl i ymuno â hwy i sefydlu gweledigaeth gyffredin ar gyfer ein heconomïau...

# Cyflwyniad i Hwyluswyr

## Pam rydym am gael eich cymorth

**Mae economïau'r Canolbarth a'r De-orllewin ynghlwm wrth bob agwedd ar fywyd y rhanbarth.**

Wrth i ni edrych tua'r dyfodol ac ystyried datblygiad economaidd tymor hir y rhanbarth ar y naill law a'i adferiad tymor byr ar ôl Covid-19 ar y llall, mae'n hanfodol bod pawb yn cael dweud ei ddweud, a bod clust i glywed pob llais.

Bydd Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol y Canolbarth a'r De-orllewin yn allweddol i hyn.  Maent yn strwythurau ffurfiol y gall economi'r rhanbarth dyfu a datblygu drwyddynt.  Byddant yn nodi beth sy'n rhaid i ni ei wneud, a sut i'w wneud.  Byddant yn nodi hefyd y penderfyniadau y bydd yn rhaid inni eu gwneud, a sut i wneud y penderfyniadau hynny.  A byddant yn disgrifio hefyd y rolau a'r cyfrifoldebau y bydd yn rhaid inni eu hysgwyddo i wireddu'n gweledigaeth ar gyfer yr economi.

I gyflawni hyn, rhaid i ni weithio gyda'n gilydd.  Dylai'r Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol gael eu creu gan y bobl y byddant yn effeithio arnynt: sef ni, bob un ohonom, fel eu bod yn 'perthyn' i ni.  Trwy fynd ati fel hyn, byddwn yn adeiladu ar sylfeini Ffyniant i Bawb, Cynllun Gweithredu Economaidd Llywodraeth Cymru, sy'n esbonio pam mae angen rhoi llais cryfach i'r rhanbarthau wrth ddatblygu economi Cymru, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n gofyn i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effeithiau tymor hir eu penderfyniadau ac i weithio'n well â phobl, cymunedau ac â'i gilydd.

Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru a'r partneriaid rhanbartholar y cyd â Rhwydwaith Cydweithredu Cymru a Cazbah.

Mae cyflwyniad manwl i waith ac economïau Canolbarth Cymru a De-orllewin Cymru ar gael yn 'Tuag At Fframwaith Economaidd Rhanbarthol - Dogfen Cyfranogiad ac Ymgysylltiad Rhanddeiliaid'.

# Cyflwyniad i Hwyluswyr

## Beth sydd yn y canllaw hwn?

**Yn y canllaw hwn, fe gewch yr holl adnoddau sydd eu hangen arnoch er mwyn i aelodau eich grŵp ein helpu i greu ein gweledigaeth gyffredin ar gyfer economi'r rhanbarth a'r Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol a fydd yn ei chynnal.**

Mae hyn yn cynnwys:

- **Canllawiau trafodaeth:** wedi'u rhannu yn lefelau syml a manwl.
- **Taflenni gwaith:** i'n helpu i gyflawni'r gweithgareddau.
- **Templed adborth:** caniatáu i chi rannu meddyliau, teimladau a syniadau eich disgyblion yn gyflym ac yn rhwydd.
- **Dolenni:** at ragor o wybodaeth ac adnoddau defnyddiol.

Caiff y gweithgareddau eu rhannu dan bedair thema:

1. Ein Gweledigaeth
2. Cydweithio
3. Heriau a Chyfleoedd
4. Yr Hyn sydd Bwysicaf

Gall pob gweithgaredd gael ei chwblhau mewn 15 munud, gan unigolion neu grŵp. Dylech hwyluso’r drafodaeth hon mewn ffordd sy’n ddiddorol ac yn briodol i’ch grŵp. Nid oes unrhyw weithgareddau gorfodol er mwyn cymryd rhan.

Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau sydd gennych am y gweithgareddau hyn, a datblygiad y Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol ar gyfer Canolbarth Cymru a De-orllewin Cymru at midandsouthwest@ref.cymru.

D.S. Mae pob un o'r gweithgareddau yn cymryd i ystyriaeth y gall fod angen eu gosod fel tasgau i’w cyflawni’n annibynnol, ac y gallech fod yn gweithio mewn grwpiau llai nag arfer a/neu o bell.

# Adborth

## Eich Cartref. Eich Gweledigaeth.

**Darperir adborth ar ffurf set syml o gwestiynau...**

Nod yr holl drafodaethau yw helpu'r grwpiau i ateb y cwestiynau hyn. Mae'r cwestiynau yn rhoi sylw i:

i. Gweledigaeth ar gyfer economi Canolbarth Cymru a De-orllewin Cymru.
ii. Beth fydd yn ei gwneud yn haws cydweithio yn y rhanbarth?
iii. Yr her fwyaf yn y rhanbarth.
iv. Y cyfle mwyaf yn y rhanbarth.
v. Y brif flaenoriaeth yn y rhanbarth.

Os oes angen, mae templed adborth syml ar gael trosodd.

### Anfon eich adborth atom

- Gallwch rannu eich adborth drwy anfon atebion i'r cwestiynau adborth (naill ai wedi'u sganio neu fel lluniau) fel ffeiliau WORD, PDF, JPG neu PNG at midandsouthwest@REF.cymru.
- Cofiwch gynnwys **enw eich grŵp** fel pwnc.

Gallwch rannu unrhyw wybodaeth arall hefyd fel ffeiliau PDF, JPG neu PNG at yr un cyfeiriad. Bydd yr holl wybodaeth sy'n cael ei rhannu yn cyfrannu'n uniongyrchol at y gwaith o ddatblygu'n derfynol Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol ar gyfer Canolbarth Cymru a De-orllewin Cymru.

### Ffyrdd eraill o gymryd rhan

- Ar gyfer pobl ifanc dros 13 oed, yn ogystal â chymryd rhan yn y gweithgareddau hyn, gallant gyfrannu'n uniongyrchol at y gwaith o ddatblygu'r Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol yn midandsouthwest.commonplace.is.
- Bydd cyfres o rith ddigwyddiadau yn cael ei chynnal fis Hydref. I gael rhagor o wybodaeth ac i fynegi diddordeb i bobl ifanc gymryd rhan, cysylltwch â midandsouthwest@REF.cymru.

# Fy adborth

## Cwestiynau allweddol

Sut weledigaeth ddylai fod gennym ar gyfer economïau Canolbarth Cymru a De-orllewin Cymru?

Beth fydd yn ei gwneud yn haws cydweithio ar draws Canolbarth Cymru a De-orllewin Cymru?

Beth yw'r cyfle mwyaf i'n heconomïau?

Beth yw'r her fwyaf i'n heconomïau?

Beth ddylai fod yn brif flaenoriaeth inni?

Teimlwch yn rhydd i ddefnyddio'r cwestiynau fel canllaw, ond i roi adborth ar y fformat ac i'r manylder sydd fwyaf priodol i'ch grŵp.

# Trafodaeth 1
## Ein Gweledigaeth

### Lefel Syml

- Cyfeiriwch at Daflenni Gwaith 1 a 2 i gael cyflwyniad cyffredinol i Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol, a’r termau allweddol cysylltiedig.
- Gofynnwch i'r grŵp sut maen nhw'n dychmygu ac yn gobeithio y bydd eu hardal yn y dyfodol ac ar gyfer y cenedlaethau i ddod.
- Gan gyfeirio at Daflen Waith 3, ystyriwch ‘ddatganiadau o weledigaeth’ gwahanol sefydliadau o bob rhan o’r byd.
- Trafodwch y gwahanol ‘ddatganiadau o weledigaeth’ y gallai Canolbarth Cymru a De-orllewin Cymru eu mabwysiadu.
- Beth am gynnal pleidlais i ddewis 'gweledigaeth gyffredin' y grŵp?

### Lefel Fanwl

- Cyfeiriwch at “Tuag At Fframwaith Economaidd Rhanbarthol - Dogfen Cyfranogiad ac Ymgysylltiad Rhanddeiliaid” i roi cyflwyniad manwl i economïau Canolbarth Cymru a De-orllewin Cymru.
- Gan gyfeirio at Daflen Waith 3, ystyriwch ‘ddatganiadau o weledigaeth’ gwahanol sefydliadau.
- Gofynnwch i'r disgyblion ddychmygu bod Canolbarth Cymru a De-orllewin Cymru yn gwmni.

  i. Beth fyddai'r datganiad o weledigaeth?
  ii. Beth fyddai arwyddair y cwmni?
  iii. Beth fyddai'r logo?
  iv. Sut fyddai'n trin ei staff?
  v. Sut fyddai'n trin ei gwsmeriaid?
  vi. Sut fyddai'n trin yr amgylchedd?

# Trafodaeth 2
## Cydweithio

### Lefel Syml

- Gofynnwch i'r grŵp feddwl am adegau pan oedd hi'n hawdd gweithio mewn timau, ac adegau pan oedd hi'n anodd.
- Ystyriwch sut gall rheolau helpu timau i gydweithio.
- Gofynnwch i'r grŵp awgrymu rheolau a allai ei gwneud yn haws i bawb yng Nghanolbarth Cymru a De-orllewin Cymru gydweithio.

### Lefel Manwl

- Gofynnwch i'r grŵp rannu enghreifftiau o adegau pan oeddent yn gweithio fel rhan o dîm.
- Ystyriwch y rheolau sy'n cael eu defnyddio mewn gwahanol gyd-destunau i'w gwneud yn haws gweithio fel tîm.
- Gofynnwch i'r grŵp awgrymu rheolau a allai ei gwneud yn haws i bawb ar draws Canolbarth Cymru a De-orllewin Cymru weithio fel tîm, i gefnogi economïau'r rhanbarth.
- Dewiswch 'reol aur' ar gyfer Canolbarth Cymru a De-orllewin Cymru.
- D.S. Gall 'Cytundeb Paris' ddarparu astudiaeth achos ddiddorol o reol yn hwyluso gwaith tîm ar raddfa ryngwladol (a'r canlyniadau cymysg) > https://www.worldwildlife.org/pages/paris-climate-agreement

# Trafodaeth 3
## Heriau a Chyfleoedd

### Lefel Syml

- Gofynnwch i'r grŵp ystyried a thrafod pa heriau a chyfleoedd maent wedi dod ar eu traws.
- Gofynnwch i'r grŵp ystyried yr heriau a'r cyfleoedd lle maent yn byw. Ai'r un heriau a chyfleoedd yw'r rhain â'r rhai y mae'r grŵp wedi dod ar eu traws?
- Gan ddefnyddio Taflen Waith 4, gofynnwch i'r grŵp ystyried gwahanol ffeithiau am Ganolbarth Cymru a De-orllewin Cymru. Ai her neu gyfle yw pob un?
- Beth am gynnal pleidlais ynghylch yr her fwyaf, a'r cyfle mwyaf, yn y rhanbarth?

### Lefel Manwl

- Gan gyfeirio at "Tuag At Fframwaith Economaidd Rhanbarthol - Dogfen Cyfranogiad ac Ymgysylltiad Rhanddeiliaid" (tudalennau 16 ac 17 ar gyfer Canolbarth Cymru, neu 22 a 23 ar gyfer De-orllewin Cymru) dangoswch y cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau yn economi'r rhanbarth i'r grŵp.
- Gwahoddwch y grŵp i roi sgôr i bob un, gyda:
  a. -10 pwynt ar gyfer y bygythiad/gwendid mwyaf
  b. +10 pwynt ar gyfer y cryfder/cyfle mwyf
  c. 0 pwynt ar gyfer rhywbeth niwtral
- Cyfrwch y sgoriau sgoriau ar gyfer pob un a gwnewch restr o'r bygythiadau/gwendidau mwyaf i'r cryfderau/cyfleoedd mwyaf i'r ardal.
- Ystyriwch unrhyw heriau a chyfleoedd nad ydynt wedi'u nodi ar y rhestr hon. Sut y byddai'r grŵp yn sgorio'r rhain?

# Trafodaeth 4
## Yr Hyn sydd Bwysicaf

### Lefel Syml

Gofynnwch i'r grŵp "beth sy'n bwysig i chi, a pham?".

Gofynnwch i'r grŵp ystyried y pethau sydd bwysicaf i'r grŵp o ran: lle maent yn byw, eu diwylliant a'u treftadaeth, eu cymuned, yr amgylchedd.

- Gofynnwch i'r grŵp "o bob peth y gwnaethom ni drafod, beth sydd bwysicaf, a pham?"

### Lefel Fanwl

- Gofynnwch i'r grŵp ystyried y pedwar nod canlynol:
    1. Lleihau anghydraddoldeb incwm.
    2. Creu busnesau mwy cystadleuol.
    3. Pontio i economi ddi-garbon.
    4. Adeiladu cymunedau iach a chynaliadwy.
- Gofynnwch i'r grŵp ystyried pa un o'r pedwar nod hwn yw'r flaenoriaeth uchaf.
- Oes yna unrhyw beth arall sydd yr un mor bwysig, neu sy'n fwy pwysig, na'r 4 yma?

# Taflen Waith 1

## Beth yw Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol?

Mae rhanbarth yn fan penodol...

- Mae rhanbarthau Canolbarth Cymru a De-orllewin Cymru yn cynnwys Powys, Ceredigion, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.
- Mae dros 900,000 o bobl yn byw yma (a nifer ohonyn nhw'n siarad Cymraeg).
- Mae'n cynnwys ardaloedd cefn gwlad a'r arfordir, trefi a dinasoedd.

Economi yw'r system o wneud a defnyddio arian.


- Mae'r swyddi sydd gennym, y pethau rydym ni'n prynu a gwerthu a'r pethau newydd sy'n cael eu hadeiladu a'u gwneud yn ein rhanbarth, yn dibynnu ar ein heconomi.


Mae fframwaith fel ffrâm ddringo ...

- Gall ei gwneud yn haws dringo.
- Gall eich helpu i ddringo'n uwch.
- Gall helpu mwy o bobl i ddringo ar yr un pryd.

OND

- Mae gwahanol fathau o fframiau dringo yn gadael i chi ddringo mewn gwahanol ffyrdd.
- Felly mae'r ffordd mae'r ffrâm ddringo wedi cael ei hadeiladu (ei strwythur) yn gwneud gwahaniaeth.





Mae Fframwaith Economaidd Rhanbarthol yn strwythur sy'n helpu economi rhanbarth. Mae Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol yn cael eu gwneud ar hyn o bryd ar gyfer Canolbarth Cymru a De-orllewin Cymru.

# Taflen Waith 2

## Rhestr o'r prif dermau

| | |
|---|---|
| Cynllun Gweithredu ar yr Economi | Cynllun ynghylch rheoli, tyfu neu ddatblygu'r economi. Enw cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ar yr economi yw ' Ffyniant i Bawb'. |
| Yr Economi | Y system i wneud a defnyddio arian mewn gwlad neu ranbarth penodol. |
| Fframwaith | Strwythur sy'n cynnal rhywbeth sy'n cael ei adeiladu arno neu o'i gwmpas. |
| Fframwaith Economaidd Rhanbarthol | Strwythur i gynnal y gwaith o reoli, tyfu neu ddatblygu economi rhanbarth. Mae Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol yn cael eu datblygu ar hyn o bryd ar gyfer Canolbarth Cymru a De-orllewin Cymru. |
| Rhanddeiliad | Person neu grŵp sydd â buddiant uniongyrchol yn y broses o wneud penderfyniadau. |
| Datganiad gweledigaeth | Brawddeg fer neu baragraff sy'n cyfathrebu gôl neu bwrpas cwmni neu sefydliad sy'n gallu helpu pobl i ddod ar ei gilydd i weithio tuag at yr un gôl. |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Darn o ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru am wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Bydd yn gwneud i gyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf feddwl am y tymor hir, gweithio'n well â phobl, cymunedau a chyda'i gilydd, ceisio rhwystro problemau a gweithio mewn ffordd fwy cydgysylltiedig. |

# Taflen Waith 3

## Enghreifftiau o ddatganiadau o weledigaeth cwmnïau

- IKEA: "To create a better everyday life for many people"
- Nike: "Bring inspiration and innovation to every athlete in the world (if you have a body, you are an athlete)"
- McDonalds: "To be the best quick service restaurant experience"
- Oxfam: "Byd heb dlodi"
- Patagonia: "Build the best product, cause no unnecessary harm, use business to inspire and implement solutions to the environmental crisis."
- Tesla: "To accelerate the world's transition to sustainable energy."
- TED: "To spread ideas"
- Cymdeithas Alzheimer: "Byd heb glefyd Alzheimer"
- Harvard University: "To develop leaders who will one day make a global difference."
- Disney: "To make people happy"

# Taflen Waith 4

## Heriau a Chyfleodd

Yng Nghanolbarth Cymru a De-orllewin Cymru ...

- Mae gennym arfordir a chefn gwlad hardd
- Mae gennym hanes, treftadaeth, iaith a diwylliant anhygoel
- Mae rhai pobl wedi gorfod symud i ffwrdd i gael swyddi
- Mae llawer o bobl yn ymweld ar eu gwyliau
- Rydym yn gwneud, ffermio a thyfu llawer o wahanol bethau
- Mae rhai pobl yn methu defnyddio'r rhyngrwyd
- Gall fod yn anodd teithio o un lle i'r llall
- Mae llawer o bobl yn cael addysg dda
- Mae rhai mannau â llai o bobl yn byw yno nag oedd o'r blaen
- Mae rhai pobl heb ddigon o arian ar gyfer yr holl bethau sydd eu hangen arnynt

Mae'r datganiadau hyn yn seiliedig ar **'Tuag At Fframwaith Economaidd Rhanbarthol - Dogfen Cyfranogiad ac Ymgysylltiad Rhanddeiliaid'**.

Crewyd y ddogfen hon gan Helen Dale, Suze Dempsey Sawin, Rachel Wolfendale a Mike Corcoran ar ran Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru.